# Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg i gefnogi annibyniaeth unigolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio ag unigolion i gynnal asesiadau risg ac i ddatblygu cynlluniau rheoli risg. Mae'n cynnwys grymuso eraill i nodi a gweithredu newidiadau i gynlluniau rheoli risg.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion ac asesiadau risg neu gynlluniau rheoli cyfredol
2. cynorthwyo unigolion ac eraill i ddeall y broses asesu risg a phwrpas y broses honno
3. grymuso unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu’r cymorth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn asesiadau risg i gefnogi eu hannibyniaeth
4. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi’r risgiau i’w hasesu i gefnogi annibyniaeth
5. cynnal asesiadau mewn ffordd sy’n hybu cyfranogiad ac annibyniaeth unigolion
6. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i gytuno ar gynlluniau rheoli risg
7. trafod canlyniad cadarnhaol pan y gall dewisiadau unigolion o ran rheoli risg gyflwyno heriau
8. rhoi cynlluniau rheoli risg ar waith a chefnogi unigolion ac eraill i’w dilyn
9. arwain y gwaith o ddatblygu systemau a gweithdrefnau i gefnogi unigolion ac eraill i adolygu a rhoi gwybod am newidiadau sy’n cael eu nodi ar gyfer y cynlluniau rheoli risg
10. gwerthuso’r wybodaeth a gafodd ei hadrodd am gynlluniau rheoli risg, a chefnogi pobl eraill i wneud hynny
11. gweithio ar y cyd i gytuno ar unrhyw newidiadau i asesiadau risg a chynlluniau rheoli, a nodi sut y bydd y rhain yn cael eu hadolygu a’u rhoi ar waith
12. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer asesiadau risg a chynlluniau rheoli
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion, ac adolygu a gwerthuso'r wybodaeth honno, yn ogystal ag asesiadau risg neu gynlluniau rheoli cyfredol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gwybodus
2. sut mae annog a chefnogi cyfranogiad ac annibyniaeth unigolion yn ystod asesiadau risg
3. rôl perthnasoedd a rhwydweithiau yn y gwaith o gynllunio trefniadau rheoli risg
4. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi yn y broses asesu risg
5. sut mae cerfnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod y broses asesu risg
6. y gwahanol fathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion yn ystod asesiadau risg, a sut i sicrhau eu bod yn hygyrch
7. gwahanol fathau o asesiadau risg a chynlluniau rheoli personol
8. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol mewn cynlluniau asesu risg
9. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar gymryd risgiau
10. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i asesu risgiau gydag unigolion
11. sut mae datblygu systemau a gweithdrefnau i gefnogi unigolion ac eraill i roi gwybod am newidiadau i gynlluniau rheoli risg
12. y ddyletswydd foesol a moesegol i ddiogelu unigolion ac eraill, ac i amddiffyn y cyhoedd yn ehangach, a rôl cynlluniau rheoli risg yn hyn o beth
13. ffyrdd o rymuso eraill i nodi newidiadau o ran unigolion yn cymryd risgiau
14. sut mae gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar asesiadau risg a chynlluniau rheoli
15. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg
16. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli risg
17. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg
20. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod y gwaith o

ddatblygu cynlluniau rheoli risg
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddatblygu cynlluniau rheoli risg
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD415

Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli risg

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD415 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygu Cynlluniau Rheoli Risg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |